YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
CYRDDAU BLYNYDDOL.
Y PWYLLGOR BLYNYDDOL.
Y GYMANFA.
COLEG CAERFYRDDIN.
CYLCH DYLANWAD.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv. | Awst 1935 | Rhif 8

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eisteddar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXV. AWST, 1935. RHIF 8

"DOS I'TH YSTAFELL—."

2 COR. iii, 17 : "Eithr yr Arglwydd yw yr Ysbryd, a lle mae Ysbryd yr Arglwydd, yno y mae rhyddid.

* * *

UN peth yw credu mewn anfarwoldeb ; mae yn angenrheidiol yn gyntaf i gredu mewn bywyd.—R. LOUIS STEVENSON.

* * *

CEDWCH eich hunain yn lân ac yn loyw. Chwi eich hun yw'r ffenestr drwy ba un y mae yn rhaid i chwi weled y byd.—G. B. SHAW.

* * *

YR achos ac nid y farwolaeth sydd yn gwneyd y merthyr.—NAPOLEON.

* * *

ANWYBODAETH ydyw nos y meddwl, ond nos heb loer na sêr.—CONFUCIUS.

* * *

Os oes gennych wybodaeth, gadewch i eraill gynneu eu canhwyllau wrtho.—MARGARET FULLER.

* * *

PWY all osod ei fys ar Gyfiawnder, a dweyd "Wele yma" ? Mae Cyfiawnder fel Teyrnas Dduw, nid yn ffaith o'r tu allan i ni, ond yn hiraeth angerddol o'n mewn.—GEORGE ELIOT.

* * *

Nid mewn *pethau* y mae llawenydd ond ynom ni.—WAGNER.

* * *

O ystyried o honom mor ychydig o bethau sydd yn werth digio o'u plegid, byddwn yn rhyfeddu fod hyd yn oed ynfydion yn gwgu.—ROBERT DODSLEY.

* * *

MAE pob gwirionedd yn orchestwaith ; os mynnwch gael gwirionedd sydd yn wir werthfawr, enillwch ef.—MUNGER.

* * *

DAD Nefol, Awdur a Ffynhonnell pob gwirionedd a deall, anfon, ni a erfyniwn arnat dy Ysbryd Glân i'n calonnau, a goleua ein deall ni a phelydrau dy ras Di dy hun. Bydded i Ysbryd Doethineb ein hachub rhag pob dewis ffôl. Yn dy oleuni Di boed i ni weled y goleuni, ac yn dy lwybrau union Di cadw ni rhag syrthio, er mwyn dy enw.—Amen.

Cyrddau Blynyddol ym Mwlchyfadfa.

O FEDDWL ar funud segur am amgylchedd capeli Undodaidd Sir Aberteifi, fe'n synnir, ond odid, mor ddoeth fu y tadau pan yn dewis llecyn i adeiladu eu teml syml arno. Ni all y dieithryn, o ddyfod ohono am y tro cyntaf i ymweled â'n capeli, ond teimlo fod cefndir teilwng i bob un ohonynt. Ac yn sicr, fe osodwyd Capel y Bwlch mewn man tlws odiaeth. Pwy all ddyfod ato o gyfeiriad Castellhywel heb i brydferthwch heddychol yr olygfa daflu ei hud drosto? Dyna fel y teimlai un ymwelydd, beth bynnag, ac ni fedrai lai na dymuno ar yr un pryd y byddai y cyrddau yn deilwng o'r amgylchedd. Gobeithiai y ceid heddwch fel heddwch Natur, yn tarddu o harmoni perffaith bywyd creadigol ac nid heddwch mynwent. Mewn gair, y dymuniad brynhawn dydd Mercher oedd y byddai cyrddau'r Bwlch yn deilwng o'r " ffram ".

O edrych yn ôl, ni ellir ond cydnabod gyda diolchgarwch i'r dymuniad yma gael ei fodloni. Anodd yw dyfalu y gall y critic mwyaf anfoddog fod wedi cael llawer o ddefnydd i'w ddant yn y cyrddau hyn.

Cawd pwyllgor hir yn y bore a nifer o gwestiynnau gwir ddyrus yn cael eu trafod. Bu'r llywydd am y dydd yn wir oddefgar, a bu'r drafodaeth yn fywiog ac yn helaeth, ond ni chlywyd unwaith y nodyn chwerw sydd yn gadael clwyf ar ei ôl.

Ceir adroddiad llawn o waith y pwyllgor gan yr ysgrifennydd. Gwel y craff mai'r cam pwysicaf gymerwyd oedd penderfynu y buasai yn rhaid i fyfyrwyr yn y dyfodol basio arholiad y *Matriculation* cyn cael eu derbyn i'r coleg, os na fydd rhyw resymau cryfion ac arbennig yn cymell y pwyllgor cynghorol i drefnu yn wahanol. Hwyrach mai buddiol ydyw sicrhau ein darllenwyr fod y penderfyniad fel y pasiwyd ef yn fynegiant cywir o farn y mwyafrif mawr. Yr oedd dymuniad taer i godi safon y myfyrwyr, ac ar yr un pryd teimlid yn wir awyddus i beidio cau'r drws yn hollol yn erbyn ymgeisydd eithriadol, a rhyw amgylchiadau arbennig yn ei rwystro rhag eistedd arholiad y *Matruiclation.*

Teg ydyw sylwi nad yw hyn ond yn dwyn safon *addysgol* y weinidogaeth i fynu i lefel safon pob galwedigaeth arall.

Yn nes ymlaen ceir crynodeb o'r hyn ddywedwyd yng nghwrdd prynhawn dydd Iau gan y Parch. Mortimer Rowe, ysgrifennydd Cymdeithasfa Gyffredinol Eglwysi'r Undodiaid a'r Cristionogion Rhyddion. Dyma ei ymweliad swyddogol cyntaf â Sir Aberteifi, a gellid tybio ei fod wedi mwynhau ei hun yn fawr. Bore dydd Gwener bu ar wibdaith yn gweled y mwyafrif o'n capeli. Mae'n debyg mai nid hwn fydd yr ymweliad olaf, ac ni all yr un amheu-

aeth fod ym meddwl neb na fydd dealltwriaeth well a chyffyrddiad personol ac agos rhwng ein heglwysi â swyddogion y Gymdeithasfa Gyffredinol er lles a bendith barhaol i'r achos Undodaidd yng Nghymru.

Cyn ceisio rhoddi crynodeb o'r pregethau, efallai y goddefir dweyd un peth. Flynyddoedd yn ôl, clywais un o'n gweinidogion yn dweyd fod gormod o awyrgylch " cystadlu " yn ein cyrddau pregethu. Mae'n wir amheus a fyddai unrhyw sail i gyhuddiad o'r fath heddiw. Ond tybiaf y cytuna'm cyd-weinidogion â mi, y byddai lawer yn rhwyddach i bregethu pe y teimlid yn hollol sicr fod pob gwrandawr yn dyfod i'r cyrddau gan ddisgwyl fod pob pregethwr yn dyfod yno a chanddo neges arbennig ei hun, ac mai ei amcan pennaf yw dweyd ei neges, ac nid pregethu yn well na rhywun arall. Ni wn i am air Cymraeg sydd yn cyfleu ystyr y gair Saesneg " sermon-tasters ", ond goreu i gyd po leiaf o " sermon-tasters " sydd mewn unrhyw gynulleidfa.

* * *

Dechreuwyd y cwrdd nos Fercher gan Mr. E. Griffith Jones, o Goleg Caerfyrddin.

Pregethwyd yn gyntaf gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr, oddiar Datguddiad iii, 20 : " Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo ". Mae philosoffi bywyd ym mrawddeg y testun, ebe'r pregethwr ; mae rhywun o hyd wrth y drws yn curo. Atgofiai ni am ddarlun Holman Hunt, " The Light of the World " ; a Iesu â lamp wrth y drws yn curo. Mae'r darlun yn syml, ond mae popeth ardderchog yn syml. Ceir yma syniad Holman Hunt am yr hyn oedd Iesu mewn gwirionedd. Sylwir nad oes yr un *latch* y tu allan i'r drws, mae'r latch y tu fewn. Ni wthia Duw ei bresenoldeb ar neb, rhaid i ni agor y drws. Mae Iesu, a goreu bywyd yn sefyll beunydd wrth ddrws ddi-latch ein bywyd, a ninnau yn methu clywed am ein bod yn byw yn seleri bywyd, gyda'r isel, yr amhur, mewn anwybod a difaterwch.

Mae llawer o bethau yn curo wrth y drws,—yr anghenus, gwybodaeth newydd, egwyddorion y deyrnas.

Mae perygl i ni fel enwad fethu clywed gwirionedd newydd,—datguddiadau newydd o Dduw yn curo wrth y drws heddiw.

Mae dyn yn ei hanfod yn dyheu am gwmni Duw, a dyna yw crefydd, *drws* o'r materol i'r tragwyddol.

Pregethodd y Parch. T. L. Jones, Cefncoed, oddiar 2 Corinthiaid, iv, 2 : " Trwy eglurhad y gwirionedd yn ein canmol ein hun wrth bob cydwybod dynion yng ngolwg Duw ".

Mae apêl yr efengyl nid i'r meddwl yn unig nac i'r galon yn unig, nac i'r ewyllys yn unig, ond i'r dyn cyfan, yn feddwl, calon ac ewyllys. Clywyd awgrymu mai athroniaeth foesol ydyw Undodiaeth, ond fod efengyl yn fwy nag athroniaeth, ond onid

angen y byd ydyw athroniaeth sydd yn efengyl ac efengyl sydd yn athroniaeth.

Ymgais ydyw athroniaeth " i amgyffred y byd fel cyfan-beth," ymgais i synio am y cwbl sydd fel rhywbeth ag iddo unoliaeth â threfn a phwrpas. Hanfod yr efengyl yw ei bod hi yn sicrhau dyn fod ef a'i fyd yng nghadw gan Dduw sydd a chanddo gynllun cyfiawn a chariadus, a'i fod yn gweithio i ddwyn i ben bwrpas rhesymol a dealladwy. Mae Cristionogaeth heddiw yn gorfod brwydro yn erbyn mwy nag un system sydd yn seiliedig ar athroniaeth sydd yn hawlio bod yn esboniad digonol a therfynnol o'r byd a'i drefn a'i bwrpas. Ni ellir gwrthwynebu y pethau hyn ond ag efengyl ddeil eu hegluro, ac a fedr gymeradwyo ei hun i gydwybod a rheswm. Ni chyll yr efengyl ei gwres na'i hanterth o'i gwreiddio mewn diwylliant a gwybodaeth. Y brwdfrydedd sydd yn cyfrif yw'r brwdfrydedd a enynnir gan y gwirionedd sydd wedi ei guro allan ar eingion profiad a'i dymheru yn fflam bur rheswm.

Dechreuwyd y cwrdd prynhawn dydd Iau gan y Parch. D. Evans, Cribin a Chapelygroes.

Pregethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a Chiliau, oddiar Luc xxxiii, 46 : " I'th ddwylaw di yr wyf yn *ymddiried* fy Ysbryd ".

Y peth gwerthfawrocaf sydd gan ddyn yw ei ymddiried mewn Duw. Ei ymddiried mewn Duw oedd yn cynnal yr Iesu yn wyneb marw. Ni fedr neb fyw heb ffydd ond mae ffydd ambell ddyn ynddo ei hun, ac ar adeg marw, mae seiliau y ffydd honno yn diflannu.

Rhoddir llawer o bwys ar gredo, ac mae credo yn bwysig. Ni adawodd yr Iesu gredo ar ei ôl, ond mae ei gredo i'w chanfod yn y ffydd oedd ganddo pan yn marw, ac mae i'w darganfod yn ei fywyd.

Credai yr Iesu mewn Duw ; mae y prawf yn ei weddiau. Credai mewn Duw personol. Amlyga ei weddiau hefyd fod yr Iesu yn credu fod Duw yn Dad.

Credai yr Iesu yn ei ysbryd ei hun, credai fod ganddo ysbryd fedrai gyflwyno i Dduw i'w gadw, ysbryd a gadwai ei hunaniaeth, ysbryd oedd yn werth ei gadw.

Ni wyr neb beth yw ysbryd, ond o'r ysbryd y tardd ein geiriau a'n gweithredoedd. Pwysig felly ydyw diogelu ansawdd yr ysbryd. Gwaith pwysicaf yr eglwys heddyw ydyw diogelu yr ysbryd yma, a meithrin y rhinweddau Cristionogol fel y dileir pob peth gwael ac aflan allan o'r byd.

Dywedodd y Parch. Mortimer Rowe, B.A., Llundain, mai pleser mawr oedd cael bod yn bresennol yn y cyrddau blynyddol, ac i fwynhau profiad newydd a diddorol. Yr oedd llywydd y Gymdeithasfa Gyffredinol, Mr. G. G. Armstrong wedi bwriadu

bod yn bresennol yn y cyrddau, ond er gofid i bawb, yr oedd ei fab mewn cyflwr gwir ddifrifol o glaf. Gwyddai Mr. Rowe fod Mr. Armstrong yn gofidio yn fawr oherwydd ei anallu i ddyfod. Yn ei absenoldeb, ei ddyledswydd ef oedd cyfleu i Undodiaid Cymru ddymuniadau da holl deulu Eglwysi'r Undodiaid a'r Cristionogion rhyddion dros yr holl fyd.

Diddorol oedd clywed i Mr. Rowe gael ei eni o fewn ugain milldir i'r Bwlch, ac mai gweinidog gyda'r Annibynwyr oedd ei dad. Dywedodd yr ymwelydd ei fod wedi mwynhau ei hun yn fawr eisoes, ar waethaf y ffaith na ddeallai air o'r pregethu.

Cododd ei destun ei hun o Mathew xiii, 2 : " A thorfeydd lawer a ymgynullasant ato ef, fel yr aeth efe i'r llong, ac yr eistedd-odd, a'r holl dyrfa a safodd ar y lan ".

Tynnai y pregethwr ddarlun swynol o'r olygfa ar lan Môr Galilea y diwrnod hwnnw, a cheisiai ddychmygu balchder perchen y llong am i'r Iesu ddigwydd dewis ei long ef i siarad o honi.

Y mae pob un ohonom ni yn falch iawn o allu bod o wasanaeth i ryw ddyn enwog ; gymaint yn fwy ein balchder o fedru bod o wasanaeth i rywun a garwn ac a barchwn.

Mor falch y teimlai perchen y llong honno o gofio mewn blynydd-oedd diweddarach mai o'i long ef y pregethwyd neges y deyrnas.

Dyma un o'r digwyddiadau mwyaf awgrymiadol ym mywyd yr Iesu. A fyddem ni yn falch ac yn llawen o gael bod o wasanaeth i'r Meistr pan oedd angen arno ? O ateb, " Byddem," cofiwn fod cymaint mwy o gyfle yn awr ag oedd yn nyddiau ei fywyd daearol.

Beth bynnag fo ein galwedigaeth mae angen i ni ei chysegru hi i wasanaeth yr Iesu. Rhaid i'r crefftwyr roddi benthyg offer eu crefft ; rhaid i feistri roddi benthyg eu hawdurdod a'u gallu ; rhaid i athrawon addysgu fel y byddo y cwbl a ddysgant yn neges o oleuni a gwirionedd.

Beth bynnag ydym, gall y Meistr wneyd defnydd rhyfeddol o offer ein crefft. Tragedi ein bywydau ni yw ein bod mor anfodlon rhoddi benthyg ein bywydau i'r Iesu.

Felly hefyd gyda bywyd ein heglwysi. Gallant fod mor fach ac mor llawn, mor llawn o bethau bychain, *petty concerns*, fel nad oes gyfle a lle i neges y deyrnas. Mor bwysig yw i ni gofio gwir amcan ein bodolaeth, sef taenu efengyl goleuni a gwirionedd.

Byddai balchder perchennog y llong yn eiddo i ni pe y rhoddem fenthyg ein bywydau ac offer ein crefft yn ddi-rwgnach, fel y cai y neges yn ei holl brydferthwch ei taenu o'r newydd a'i gosod mewn gweithrediad—gwirionedd achubol Tadoldeb tragwyddol Duw a Mabolaeth dragwyddol dyn, a buddugoliaeth daioni drwy deyrnas Dduw.

Dechreuwyd cwrdd yr hwyr gan y Parch. S. E. Bowen, Allt-yplaca.

Pregethodd y Parch. J. Marles Thomas, M.A. oddiar Datguddiad ii, 7 : " I'r hwn sydd yn gorchfygu y rhoddaf iddo garreg wen ac enw newydd wedi ei ysgrifennu, yr hwn nid edwyn neb ond yr hwn sydd yn ei dderbyn ".

" Buddugoliaeth " yw cymeriad Llyfr Datguddiad, ond nid buddugoliaeth dros deyrnasoedd y ddaear geir yma, ond buddugoliaeth enillir dros hunan drwy grefydd,—nid buddugoliaeth enillwyd gan rywun yn y gorffennol, nid buddugoliaeth ddirprwyol. ond buddugoliaeth bersonol. Sut yr enillir y fuddugoliaeth ? Beth yw ystyr y garreg wen a'r enw newydd ? Gwisgai yr hen offeiriad Iddewig fathodyn ag arni ysgrifen na wyddai neb ei hystyr ond yr offeiriad. Rhyw fath o garreg wen mewn ffrâm oedd y bathodyn. Y syniad Iddewig oedd fod perthynas arbennig rhwng yr offeiriad â Duw. Ond yn ôl Ioan yr oedd yr hawl i wisgo y bathodyn gan bawb a orchfygai. Crefydd ydyw Cristionogaeth sydd yn gwneyd pob dyn yn offeiriad. Mae y cysegr sancteiddiolaf yng nghalon pob dyn sydd yn gorchfygu. Rhaid i ddyn ennill y fuddugoliaeth ei hunan. Fel unigolyn y mae Duw yn gweled dyn.

Oes y peiriannau yw ein hoes ni, a pherygl i ddyn anghofio mai offeiriad i Dduw ydyw ac nid peiriant yn llaw rhywun arall. Dan Ffasciaeth a Chomiwnistiaeth heddiw cyll dyn yr hawl i feddwl drosto ei hun ; cyll ei ryddid. Crefydd fuddugoliaethus yr Iesu yn unig all herio y dylanwadau hyn. Ac mae mwy o eisiau gwir grefydd heddiw nag erioed.

Ceir testun y Parch. E. R. Dennis yn 1 Brenhinoedd xix, 9, 10 : " Ac wele air yr Arglwydd ato ef ; ac efe a ddywedodd wrtho, Beth a wnai di yma, Elias ? Ac efe a ddywedodd, Dygais fawr sel dros Arglwydd Dduw y lluoedd : oherwydd i feibion Israel wrthod dy gyfamod di, a distrywio dy allorau di, a lladd dy broffwydi â'r cleddyf ; a mi fy hun a adawyd ; a cheisio y maent ddwyn fy einioes innau." Mae cyfnod y proffwyd a'n cyfnod ni yn debyg i'w gilydd, cyflwr crefydd yn debyg, cyfnod amheuaeth ac ansicrwydd. Gofidiai y proffwyd o weled y bobl yn troi eu cefnau ar yr hen allorau, ond fe all y ffyddloniaid gamesbonio pethau ; gweled gwell cyflwr ar bopeth nag ar grefydd, teimlo fod y gwaith yn galed, a Duw yn cuddio ei hun, ond mae rhywbeth heblaw difaterwch ac adfeilion yr hen allorau. Mae neges arall a llwyddiant mwy yn bosibl nag hyd yn oed lwyddiant y gorffennol.

Nid yr allanolion sydd yn penderfynu gwir lwyddiant crefydd. Nid yn ein cadwraeth ni y mae crefydd. Ni ellir gorchfygu'r dwyfol ac ni ellir dileu yr hyn a blannodd Duw yn enaid dyn. Ni all drygioni fforddio ei faeddu, ond fe all y da,—gall aros ei gyfle. Mae cynllun a phwrpas mewn bywyd, ac mae angen ffydd i gredu fod popeth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. Mae adnoddau dwyfol yn ein cynnal. Ni all Duw fethu.

Yr ydym wedi gwrthod y syniad o wyrth, ond peidiwn anghofio'r ffaith ogoneddus o'r deddfau. Ni fetha rhain ac ni thwyllir neb ganddynt. Os byddwn ni yn ffyddlon, mae'r fendith yn sicr. Nid oes eisiau gwyrth i wneyd ein heglwysi yn llwyddiannus heddiw. Ffyddlondeb sydd yn eisiau. O gael y ffyddlondeb deuai diwygiad yn fuan. Ni ellir dileu'r neges ddwyfol yn enaid dyn.

Y Pwyllgor Blynyddol.

Cynhaliwyd y Pwyllgor Blynyddol yng Nghapelyfadfa bore Iau, Awst 1. Yn absenoldeb y Llywydd—Mr. Thomas Davies, Capelybryn, yr hwn a luddiwyd i fod yn bresennol gan afiechyd, etholwyd y Parch. T. Oswald Williams, M.A., yn gadeirydd y cwrdd. Gan fod Mr. Davies, ar hyd ei oes faith wedi bod yn un o ffyddloniaid yr achos yn y Sir, yn enwedig gyda'r cymanfaoedd a chanu cynulleidfaol, yr oedd yn wir flin gan y cyfarfod am ei absenoldeb, ac yn fwy felly am achos ei absenoldeb. Pasiwyd yn frwdfrydig iawn fod dymuniadau gorau'r cwrdd yn cael eu danfon iddo. Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Adroddiad y Trysorydd. Dyma'r adroddiad mwyaf calonnog ydym wedi ei gael ers rhai blynyddoedd ac mae'n amlwg, ond i bob cynulleidfa fod yn ffyddlon gyda'r casgliadau blynyddol fod y Gymdeithas ar y ffordd i gael ei hun ar dir diogel.

Y "Grants". Fod y Trysorydd i wneud y "grants" arferol yn ôl fel y bydd y cyllid yn caniatai.

Ein Myfyrwyr. Cafwyd adroddiad ar waith y myfyrwyr. Tipyn yn siomedig oedd hwn. Penderfynwyd rhoddi hawl i'r Pwyllgor Cynghorol a Phwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr i wahodd ymgynghori ag ef ar faterion perthynol i'r myfyrwyr. Pasiwyd ymhellach (1) Nad oes "grant" i'w gwneud i fyfyrwyr nes tyrhaedd o hono y coleg—os yw rheolau'r gronfa yn caniatai gweithredu felly; (2) Cyn y gall ymgeisydd gael ei gymeradwyo i'r coleg fod yn rhaid iddo basio arholiad y *Matriculation* ond fod hawl gan Bwyllgorau'r Myfyrwyr laesu ychydig ar y rheol hon os teimlant fod yna resymau cryfion dros wneud hynny.

Ail Lyfr Gwersi'r Ysgol Sul. Dywedodd y Parch. T. O. Williams y credai y gallai addaw y bydd hwn yn barod erbyn Cyrddau'r Hydref.

Y Pwyllgor Cynghorol a Phwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr. Etholwyd Mrs. Jones, Y Bryn, Mr. W. S. Jones a'r Parch. E. O. Jenkins i gynrychioli'r Gymdeithas ar y ddau Bwyllgor yma.

Swyddogion am 1935-36. Llywydd, Mr. Thomas Thomas, Spring Gardens, Llandysul; Is-Lywydd, y Parch. D. Evans, Cwmiago; Trysorydd, Mr. W. S. Jones gyda Mr. D. Jones, Dolgerdd yn Gyd-Drysorydd. Ail etholwyd yr Ysgrifennydd a'r Archwilwyr.

Ar gynygiad y Parch. T. L. Jones pasiwyd fod y diolchiadau arferol i'r cynulleidfaoedd am dderbyn y Cyrddau Chwarterol a Blynyddol o hyn allan i'w cyflwyno yng nghyfarfod y bore ac nid mewn oedfa bregethu yn ôl yr hen ddull. Diolchwyd yn gynnes i gynulleidfa Capelyfadfa am dderbyn y Cyrddau eleni, gan y Cadeirydd. Diolchwyd hefyd i'r Ysgrifennydd.

Y Gymanfa.

Bore'r Gymanfa! Rhaid oedd codi'n foreuach nag arfer y bore hwn. 'Roedd y daith i Aberystwyth yn faith a rhaid oedd cyrraedd yno erbyn hanner awr wedi deg. Felly gwelwyd pawb a elent i'r gymanfa allan ar glos y fferm yn fore bach heddiw. Ni â'r gwartheg fyth ar eu gwyliau a geilw'r iar a'i chywion am eu boreufwyd bob dydd.

"A rhaid oedd gorffen gyda'r gwartheg
Cyn dechreu canu cân y dydd."

Gwisgai John ei wisg oreu y bore hwn a syllai'r merched yn hwy nag arfer yn y drych. Pawb mewn brys a ffwdan a Mot y ci a'i drwyn ar ei bawen yn methu deall beth oedd yn bod.

Ond o'r diwedd wele bawb yn barod ac yn disgwyl am y bws. Dacw ef yn dyfod ac wele'r plant a'u miri iach yn rhuthro am eu seddau. Roedd pob sedd yn llawn, a phob bron yn llawen yn y bws y bore hwn. Tywynnai haul yn dirion deg ar fryn a dôl; gwenai'r blodau ar ochr y ffordd; canai'r aderyn du ar frig y pren a Natur ei hun fel pe yn gwybod mai bore'r gymanfa oedd hi. Tystiai pawb wrth ganu yn y bws,—

"Mae'r byd i mi yn hyfryd
A llawn o nefol swyn,
A'r haul sydd yn disgleirio
A'r bopeth i mi'n fwyn."

Cofiai'r oedrannus am gymanfaoedd y gorffennol. Teithient eleni gyda'r bws ond cofient am yr hen gerbydau hamddenol dau geffyl a phedair olwyn, a theimlent fod rhamant teithio bore'r gymanfa wedi ei golli gyda dyfod dyfais a gwyddor. Ond stori arall ydyw honno yn awr.

Dywedai rhai ar y ffordd i Aberystwyth fod ysbryd hen gerddor o Bantywilco (arweinydd y gymanfa gyntaf) yn teithio gyda hwy.

Rhaid i rai o'r cerbydau fyned heibio i ddrws " Maesffynnonoer", ond ni welwyd Hughes yn disgwyl y boreu hwn. A chredai rhai o ddychymyg byw ei fod ef gyda John Lloyd, Pantywilco heddiw,—

" O fewn Eglwys fawr gadeiriol
Neu rhyw gapel eirwych glân,
Lle mae'r organ gyda'r eurgor
Yn dyrchafu'r ddwyfol gân"

Er fod y daith i'r gymanfa eleni yn mhellach nag arfer, cyrhaeddwyd

" Hen fan hael ar fin heli "

mewn pryd, a gwelwyd pawb mewn hwyl at waith y dydd. Rhaid oedd cyfarch gwell i gyfaill ar yr heol cyn dechreu canu a gofyn os oedd " bws ——— " wedi cyrraedd. 'Roedd y bws yn nes i'w amser y boreu hwn na'r tren !

Daeth amser i ddechreu a gwelwyd llwyth ar ôl llwyth yn cerdded i gyfeiriad capel Shiloh. Cytunai pawb ei fod yn gapel braf, ac o fyned i mewn gwelwyd ei fod yn gapel eang—ond llanwyd bron pob sedd yn fuan.

Dechreuwyd cyfarfod y bore gan y Parch. S. E. Bowen, ac yna gwelwyd y cerddor medrus, Dr. Hopkin Evans, yn ymaflyd yn ei waith. Gŵr sy'n feistr ar ei grefft ydyw Dr. Evans. Os oes cân yn y galon, medr ef ei thynnu allan.

'Roedd yr arweinydd yn ei hwyliau goreu y bore hwn. Chwareuwyd ar yr organ newydd a hardd yn fedrus a swynol gan Mr. Charles Clements, organydd y capel. Darllenwyd allan emynau'r plant gan blant y gymanfa, a rhoddasant hwyl i bawb at waith y dydd.

Galwyd ar lywydd y bore i gymeryd y gadair, a daeth hiraeth i lawer bron o sylweddoli na welai neb yma'r bore hwn y llywyddes apwyntiedig,—y diweddar Miss Marles Thomas. O dafiu golwg o amgylch y seddau gwelwyd fod llawer hen gyfaill a llawer hen gerddor wedi croesi yn ystod y flwyddyn,—" a'u lle nid edwyn mohonynt mwyach ". Brath i lawer bron oedd cofio na welir eu hwynebau mwyach yn ein cymanfa. Ond er colli'r cerddorion gwelwyd fod y gân eto'n fyw a Duw nef a daear yn aros eto i'w foliannu.

Cymerwyd lle Miss Marles Thomas gan y foneddiges garedig Mrs. Josiah Jones, Garthowen, a llywyddodd yn hynaws a hamddenol iawn. Cyflwynodd ar ran Cymdeithas yr Ysgol Sul fathodau i'r tri goreu yn adrannau'r arholiad. Gorffennwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parch. D. Evans.

Cafwyd awr o hamdden cyn cyfarfod y prynhawn, ond nid oedd amser i gael taith yn y bâd na cherdded y siopau a gwelwyd pob un a fedrai ganu a chymeryd diddordeb mewn canu yn ôl eto'n brydlon yn ei sedd. Ofer fu ein hofnau : ni aeth y cantorion ar goll.

Dechreuwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parch. T. Oswald Williams, Llanbedr, a llywyddwyd yn ddeheuig yn ei ffordd hamddenol ei hun gan Mr. W. S. Jones, Aberystwyth.

Nid oes eisiau cyflwyno " W.S." i un o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd. Dyma un o gewri ein henwad yng Nghymru heddiw' a gwag pob cyfarfod a phwyllgor oni fydd " W.S." yno. Ar ran eglwys Heol Newydd estynnodd groesaw cynnes i bawb o bobl y gymanfa i Aberystwyth.

Cafwyd beirniadaeth Dr. Hopkin Evans ar gystadleuaeth cyfansoddi tôn ar eiriau gan y Parch. T. Oswald Williams, a chafwyd fod Mr. David Jones, Drefach House, Llanbedr yn llwyddiannus allan o saith o gystadleuwyr. Yn y cyfarfod hwn hefyd cafwyd datganiad swynol iawn gan Winnie Price Jones o'r Bermo, geneth ieuanc wnaeth enw iddi ei hun yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cyn canu y dôn gyfarwydd " Maesgwyn " datganodd yr arweinydd ei ofid am afiechyd hir yr hen gyfaill a'r cerddor Mr. Hefin Williams, Llanbedr. Dymunodd iddo adferiad buan i'w iechyd cyntefig. Canwyd yn y cyfarfod hwn hefyd yr hen dôn " Lausanne " ac wrth ei chanu gofynwyd i bawb i gofio am y rhai oedd wedi croesi, yn enwedig am Hughes Maesffynnonoer.

Yn nerthol a medrus, canwyd gan y côr " Wrth Afonydd Babylon " yn Saesneg. Canwyd hefyd yn effeithiol iawn yr hen anthem gyfarwydd " Drylliwyd y Delyn ".

Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a llywyddwyd yn naturiol ac effeithiol iawn gan y Parch. Dan Evans. Gŵr o'r wlad yw Mr. Evans, wedi ei godi ar lechweddau moelion mynyddoedd Twm Shôn Cati,—gŵr â chân a chariad yn ei fynwes. Diolchodd yn gynnes i bobl y wlad am ddyfod i'r dref y diwrnod hwnnw, i ddysgu'r trefwyr sut i ganu.

Cafwyd datganiad melys ac effeithiol eto gan eneth arall, Marion Davies, Cwrtnewydd,—hithau eto wedi gwneud enw iddi ei hun yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cyflwynwyd diolchgarwch cynulleidfa fechan Heol Newydd i bawb a wnaeth waith y dydd yn llwyddiant, gan y Parch. J. Marles Thomas, Aberystwyth. Diolchodd i Undodiaid y Sir am ddyfod a'r gymanfa eleni i Aberystwyth. Menter ydoedd ei symud am dro i ogledd y sir, ond ar ddiwedd y dydd medrai pawb gytuno i'r gymanfa fod yn eithriadol o lwyddiannus.

Gwelwyd cyfeillion selog a brwdfrydig o sir Forgannwg yn canu fel arfer gyda ni. Daeth tyrfa ohonynt o Drebanos, o Gefn Coed ac Aberdâr. Diolchwyd iddynt am ddod.

Diolchwyd yn gynnes i weinidog a chynulleidfa Eglwys Shiloh am eu caredigrwydd yn rhoddi benthyg eu capel braf, a'r organ newydd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. 'Roedd yntau fel pawb arall yn ei hwyliau goreu ar ddiwedd y dydd.

Gorffenwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parch. J. D. Jones, Trebanos.

Mae Cymanfa 1935 bellach ymhlith y pethau a fu ond erys o hyd mewn atgof. Siarad a chanmol a glywir o hyd yn Aberystwyth am Gymanfa Undodiaid. Tystia cerddorion y dref na chlywyd y fath ganu yn y dref ers llawer o flynyddoedd.

Mae Undodiaid y sir bellach ar y *map* yn Aberystwyth a chred pawb yma y medrant ganu.

Rhaid fod ganddynt neges os ydynt yn medru canu.

M.

Coleg Caerfyrddin.

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar y 26ain o Fehefin. Yr oedd y tywydd yn ddymunol a'r cynulliad yn fwy lluosog nag arfer. Pleser oedd gweled nifer mor dda o Undodiaid —perthynol i'r ddwy gymdeithas—yn bresennol. Ar y llwyfan gwelwyd : Yr Henadur Harold Baily (cadeirydd) ; Mr. Classon Drummond (mab y diweddar barchus Dr. James Drummond) a'r Parch. Joseph Worthington, B.A.—y tri yn cynrychioli y Bwrdd Presbyteraidd ; Mrs. H. Baily, D.Sc. ; y Parch. E. Griffith Jones, D.D. a W. Whitaker, M.A.—arholwyr ; Mr. G. H. Clennell —ysgrifennydd y Bwrdd ; y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., yr Athrawon M. B. Owen, B.A., B.D. ; J. Oliver Stephens, M.A., B.D., a D. P. Roberts, M.A., B.D. ; yr Athro Ernest Hughes— yn cynrychioli Coleg Abertawe a Mrs. Philemon Moore yr hon a ddosbarthodd y gwobrwyon a'r tystysgrifau.

Yr oedd ar Restr y Coleg y tymor diwethaf 57 o fyfyrwyr. O'r nifer hwn yr oedd 15 yn astudio am raddau yn Abertawe, Aberystwyth, Caerdydd a Glasgow. Disgwylir i ryw 5 neu 6 o honynt orffen a dychwelyd i Gaerfyrddin y tymor nesaf i ddechreu ar eu gyrfa o dair blynedd ar gyfer y B.D. Ar wahan i'r uchod yr oedd chwech yn astudio am flwyddyn yng Ngholeg Abertawe. Byddant hwythau yn dyfod i'r Coleg Hydref nesaf. Yr oedd y gweddill yng Nghaerfyrddin—pedwar o honynt yn paratoi am y B.D., a'r lleill—yn cynnwys dau Undodwr—yn cymeryd y cwrs diwinyddol arferol. Yr oedd unarddeg yn gorffen eu gyrfa—naw yn Annibynnwyr a dau Fedyddiwr—ac mae y mwyafrif mawr o honynt wedi derbyn galwadau eisoes. Am y tro cyntaf yr oedd unarddeg—sef dosbarth yr ail flwyddyn—yn eistedd yr arholiad cyntaf am y Diploma ym mis Mehefin. Anrhydedd newydd yw hwn a gynygir gan Brifysgol Cymru i fyfyrwyr diwinyddol nad ydynt wedi graddio ac yn medru cymryd y B.D.

Fe fydd ar Restr y Coleg y tymor nesaf bedwar Undodwr—E. Griffith Jones a Howard Payne yn y flwyddyn olaf; Alan Taylor yn yr ail flwyddyn a Ernest A. Davies yn Abertawe yn y flwyddyn gyntaf.

Yn ei anerchiad o'r gadair siaradodd yr Henadur H. Baily yn uchel iawn am waith y Coleg. Dywedodd ei fod mor fyw a llewyrchus heddiw ag y bu mewn unrhyw gyfnod yn ystod ei hanes. Talodd wrogaeth i'r athrawon am eu llafur diflino ac hefyd i Mrs. Park Davies am ei gwasanaeth i fywyd cymdeithasol y Coleg. Dywedodd fod llawer o gyfnewidiadau wedi cymryd lle er pan y daeth ef gyntaf—tua 40 o flynyddoedd yn ôl—i gysylltiad â'r sefydliad, ond credai fod y cyfan wedi troi allan er daioni. Teimlai yn sicr y bydd hyn yn wir eto am y Diploma newydd y mae'r Bwrdd wedi fabwysiadu fel rhan o waith y Coleg.

Yn ei araith fer a phwrpasol gosododd Mr. Classon Drummond bwys mawr ar werth personoliaeth yn y weinidogaeth. Ar hyn yn fwy na dim arall y mae dylanwad y pregethwr yn gorffwys. Gall fod yn hyawdl, gall fod yn wybodus, gall fod yn feddiannol ar lais da—rhinweddau yr oll o honynt yn eu lle—ond heb bersonoliaeth a difrifoldeb nid yw ei lwyddiant ond bychan ac arwynebol.

Y prif siaradwr oedd y Parch. Joseph Worthington. Yn ei anerchiad—ar gyfer y myfyrwyr oeddynt yn gorffen, yn fwyaf neillduol—pwysleisiodd yn arbennig ddau wirionedd. Yn gyntaf yr angen o fod yn gynefin â bywyd a gweithiau arweinwyr mawr crefydd ym mhob gwlad a chyfnod. Gwneir hyn mewn gwyddoniaeth, celf a changhennau ereill o wybodaeth. Dylai'r pregethwr wneud yr un fath yn ei faes yntau. Yr angen arall yw am ragor o bregethu esboniadol. Nid yw hyn mor boblogaidd heddiw ag y bu unwaith. Ceir rhai eithriadau adnabyddus fel y Dr. Campbell Morgan a'r Dr. Dinsdale T. Young. Fel y gŵyr pawb y maent hwy yn cael cynulleidfaoedd lluosog iawn i'w gwrandaw.

Cafwyd anerchiadau byr hefyd gan y lleill oeddynt ar y llwyfan. Yn ei adroddiad ar waith y tymor cymrodd y Prifathro gyfle i ddiolch i'r gwahanol enwadau a'u pwyllgorau am eu gwasanaeth i'r Coleg ac i'r capeli mewn gwahanol fannau am eu cymorth gwerthfawr i'r myfyrwyr tra yn y Coleg.

I ddechreu a diweddu y cyfarfod canwyd dau emyn adnabyddus a chyn ymadael gofynwyd am fendith gan y Parch. Dyfnallt Owen, M.A.

Yn y Llyfrgell yr oedd te wedi ei baratoi a chyfranogwyd o hono gan dros 160 o gyfeillion ac ymwelwyr. Yr oedd y trefniadau ar gyfer hwn yn nwylaw Mrs. Park Davies, yn cael ei chynorthwyo gan nifer o foneddigesau.

Fel diweddglo ar y cyfan cafwyd cwrdd adloniadol dan nawdd y myfyrwyr. Yr oedd hwn fel arfer o safon uchel a rhoddodd fwynhad mawr i bawb.

Cylch Dylanwad.

DIOLCH yn fawr i chwi Mr. Gol. am eich ysgrif fanwl ar y Gymanfa yn Lerpwl yn Rhifyn Mehefin. Fel y gwyddoch yr oeddwn innau'n bresennol yn y cyfarfodydd a gallaf ddweyd i mi fwynhau'n fawr iawn bob munud a dreuliais yn Lerpwl yr wythnos honno. Bum yn ffodus yn fy llety : arhoswn gyda teulu caredig llwch llawer o berthynasau'r hwn sy'n gorwedd ym mynwent Llwynrhydowen a bu'r ddwy chwaer a'r brawd yn hynod garedig i mi.

Cyfrifwn i, fel chwithau, fod rhaglen y cyfarfodydd yn wir dda ; y testunau'n amserol a phwysig a'r driniaeth yn fedrus a chlir. Daeth y bregeth a'r oll o'r siarad â gwir fwynhad i mi, ond yr hyn apeliodd ataf fwyaf—teimlwn i'r peth gyffwrdd â rhyw dant y tu mewn i mi a ddygodd lu o adgofion melus i'm cof—oedd clywed y gweinidog annibynnol hwnnw o Gymro, W. D. Edwards, B.A., wrth sôn am ei ddyled i Undodiaid yn tystio fod ei ddyled i'r diweddar Barch. Hathren Davies yn fwy nag i neb gyfarfyddodd yn ei fywyd. Gwresogodd fy nghalon o'm mewn pan ddywedodd hynny a rhedodd fy meddwl o gwmpas Hathren a'i gysylltiadau gymaint fel yr ofnaf i mi golli pwynt gweddill ei anerchiad. Dygodd clywed enw Hathren i'm cof ei dad David Davies yr hwper—ie, a'r athraw annwyl yn nosbarth y plant a'r gweddiwr mawr a dwys. Gwledd oedd cael bod yn nosbarth David Davies, yn enwedig pan âi dros rai o hanesion yr Hen Destament, megys Moses, Joseff, a Daniel. Tybed a oedd dyled Saul i Gamaliel fymryn yn fwy nag yw dyled rhai o'r bechgyn godwyd ym Mrondeifi 50 mlynedd yn ôl i'r annwyl David Davies. Credaf y gallaf fi o leiaf wneyd cyffes onest a dweyd fod David Davies a'i gynghorion taer ac yn enwedig ei weddiau treiddgar wedi bod o help i mi lawer i dro. Mae'n anodd meddwl drwg pan gofiaf ef.

Ca rhai, meddir, anhawster i gredu ym modolaeth Duw. Pe clywsent D. Davies ar weddi credaf y diflanai'r anhawsder yn llwyr. Gwnaeth gweddiau D.D. fodolaeth Duw a diddordeb Duw yn ei blant yn bethau *real* iawn i mi fel nad oes dim byd yma wedi gallu siglo fy ffydd yn y pethau hyn, ys dywed Elfed.

> " Mae gweddiau hen weddiwyr fel angelion yn y gwynt
> Pwy a ŵyr sawl bendith heddyw sydd yn dod o'r dyddiau gynt ? "

Nid parablu oedd D. Davies—nid gosod geiriau wrth ei gilydd ond siarad â rhywun—lawer i dro pan yn ieuanc iawn y bum yn ceisio dyfalu â phwy yr oedd yn siarad—a phan oddiar ei liniau edrychai i mi fel un ag oedd yn hollol siwr ei fod wedi cael ei wrando.

" Dad ein trugareddau." Dyna fel y dechreuai bron bob gweddi. Mae'r olwg arno ar ei liniau a goslef ac acenion ei lais yn bethau byw i mi y funud yma. Pe bawn arlunydd credaf y y gallwn dynnu darlun cywir iawn o hono o'm cof—yr ysgwyddau llydain : y pen crwn : y wyneb hawddgar a'r ddau lygad caredig. Na, fedrwn i ddim clywed enw Hathren heb fynd i feddwl am ei dad a'm dyled iddo.

Peth arall ddoi i'm meddwl oedd cofio onibai i Hathren gyfarfod â damwain druenus a cholli ei law mewn peiriant pan ar wasanaeth mewn fferm gerllaw ei gartref na fuasai'r Mr. Edwards uchod, feallai, erioed wedi clywed am dano.

Cofiaf yn dda glywed adrodd am y ddamwain ac fel y darfu i rai bobl dda gymryd at y bachgen a'i yrru i'r ysgol at William Rees, Rhydygwin, a thrwy hynny ei osod ar y ffordd i'r coleg, i Cefncoed : i wasanaeth mawr ac i galon cannoedd lawer o bobl o gwmpas Cefncoed a Merthyr. Bu'r golled yna—colli'r llaw—yn fendith i laweroedd ac o bosibl yn fendith iddo ef ei hun.

I ni Undodiaid Ceredigion pregethwr oedd Hathren a disgwylid oddiwrtho ymhob cwrdd chwarter a blynyddol ac ni chawsem byth ein siomi. Pwy ai clywodd a anghofia'r bregeth yng Nghiliau ar " Gwneler dy ewyllys ar y ddaear " ; y bregeth ar " Y drws agored " ; y bregeth ar " Os " ; neu'r bregeth agos, dyner honno ar Dafydd yn chwennych dwfr o Ffynnon Bethlehem ?

Ie, pregethwr oedd Hathren i ni'n sir Aberteifi ond yr oedd yn bregethwr a rhywbeth heblaw pregethwr i bobl Merthyr a'r cylch ; yr oedd yn gynghorwr i'r trallodus yn ei gyfyngder ; yn frawd i'r dyn ar lawr ac yn gymwynaswr i bawb.

Saif dydd angladd Hathren ymhlith y pethau nas gallaf eu hanghofio—y fath dorf, y fath dristwch, y fath alar—nid o dŷ ei deulu'n unig ond o dŷ Cefncoed a'r ardal yn gyffredinol. Bu llu o weinidogion ac eraill o bob enwad a phlaid yn tystio i'w wasanaeth ddydd yr angladd ond yr un daflodd olau ar y dyn a'i waith yn bennaf i mi oedd John Thomas, gweinidog Soar, Merthyr ar y pryd, a dyma ddywedodd : " Yr oedd Hathren yn fawr gyda phopeth, ond yn fwy na dim gyda phethau bach ".

Dyna Hathren—fel aelod ar Fwrdd y Gwarcheidwaid ; yr oedd yn fawr gyda phethau bach. Fel gweinidog, fel cymydog, fel dinesydd : yr oedd yn fawr gyda phethau bach—pethau y byddai llawer yn eu cyfrif yn rhy fach i dalu sylw iddynt.

Peth arall ddoi i'm meddwl wrth wrando ar Mr. Edwards oedd hyn—mor eang, mor helaeth yw cylch dylanwad ambell un. Yn Nghefncoed yr oedd maes llafur Hathren yn bennaf fel gweinidog gydag enwad bychan a digon prin ei barch yn ei ddyddiau cynnar ef ond wele'r dylanwad yn cyrhaedd y tuhwnt i ffiniau ei enwad—yn cyrhaedd Lerpwl a glannau'r Mersey.

Dyna'r hanes o hyd—mae'r dyn da drwy ei eiriau, a'i wasanaeth a'i fuchedd yn dylanwadu er daioni ar rywrai'n barhaus—yn fynych yn dylanwadu heb yn wybod iddo ei hun a'r dylanwad hwnnw weithiau yn cyrraedd hyd eithafion gwlad a byd.

Oedd—yr oedd yn werth mynd i Lerpwl i gael clywed enw'r annwyl Hathren, a chael ar ddeall ei fod " er yn farw yn llefaru eto ". E.O.J.

Priodasau.

Ar y Llungwyn yn Eglwys St. Mair, Aberteifi, unwyd mewn glân briodas JOHN MORGAN JAMES, Prifathro Ysgol y Cyngor, Cellan, Llanbedr (gynt o Bantiorlech a Choedfoel, Llandysul) â Miss HILDA PEREGRINE, Is-athrawes Ysgol Peterwell, Llanbedr, ac o Aberteifi. Boed heulwen iechyd a chysur iddynt ill dau yn Ael-y-bryn.

Ar y 10fed o Orffennaf, 1935, yn Renshaw Street Mission Chapel, Manchester, unwyd mewn glân briodas DAVID JONES, Tanybryn, Cwmanne, â MARION HIGNETT, 3, Somerset Street, Hulme, Manchester, gan y gweinidog y Parch. D. Rhoslwyn Davies.

Marwgofion.

Mawrth 16, yn 53 mlwydd oed, bu farw WILLIAM DAVIES, Henbant, Pencarreg ac yn hannu o ochr ei dad o deulu Llwynifan. Yr oedd braidd yn ddieithr yn yr ardal hon am ei fod ym Mriton Ferry ers 25 mlynedd yn gweithio fel signalman, ond i'r neb ai hadwaenai yr oedd yn wr o rodiad glân a dilychwin, a'i enaid ym mudiad llafur ac yn fodlon aberthu popeth er codi gweithiwr. Yr oedd calon yr hen deulu ynddo, calon fawr, calon onest a chalon siriol. Ei grefydd oedd gwneud a allai dros ei gyd-ddyn. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da'n ddiweddar ond daeth y diwedd braidd yn gynt na'r disgwyl. Claddwyd yn hen fynwent y teulu yng Nghaeronnen a gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Williams, y Wenllys, T. O. Williams, T. Eirug Davies a Giraldus Jones ; a thalwyd teyrnged uchel o barch iddo gan yr Henadur J. Branch, Briton Ferry. Gadawodd frodyr a chwiorydd a nifer o berthynasau eraill i wylo ar ôl un a garent mor fawr.

Gorffennaf 1, 1935, yn 82 mlwydd oed, bu farw MARGARET JENKINS, 19, Harford Square, Llanbedr (gynt o Inglis Cottage, Alltyplaca). Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers blynyddoedd ac yr oedd yn ystod y blynyddoedd diweddaf wedi'i chaethiwo y rhan fwyaf o'i hamser i'w gwely. Benyw dawel, addfwyn a charedig ydoedd ac iddi air da ymhob cylch. Cadwodd yn selog i'w ffydd tra gallai ac nid oedd dim hyfrytach ganddi na hanes yr eglwysi. Yr oedd ers blynyddoedd bellach wedi gwneud ei chartref gyda'i nith a'i nai-yng-nghyfraith yn Llanbedr. Gadawodd un chwaer, neiaint a nithod a llu o berthynasau eraill mewn galar ar ei hôl a bu i rai ohonynt yn *fam*. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Capelygroes a'r angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. D. Evans a'i gweinidog y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, yr hwn a draddododd anerchiad ar y geiriau,— " Gwraig â chalon fawr, siriol a boneddigaidd."

Bore Mercher, Gorffennaf 3, ANNIE GERTIE STURDY, priod annwyl David A. Sturdy, Ceredigion, Fforestfach, Abertawe, yn 40 oed. Merch ydoedd i John Evans a'r diweddar Frances Evans, Wilkes Head, Llandysul, ac yn Llandysul y trigai hyd nes i alwedigaeth ei phriod fod yn achos iddynt i symud i'r lle uchod. Er yn byw yn Fforestfach cadwodd Llandysul ac yn enwedig Gwarcwm hen gartref ei mham, yn lleoedd annwyl iddi hyd y diwedd. Rhyw bum mis cyn ei marw yn herwydd anhwyldeb daeth i Gwarcwm i newid awyr a cheisio am wellhad ond druan ohoni gwaethygu wnaeth o ddydd i ddydd—ei chystudd yn druenus o galed ar adegau—hyd y borau uchod pan y ffarweliodd. Bu teulu Gwarcwm yn ofalus iawn o honi. Dangosodd ei phriod a'i holl berthynasau dynerwch mawr hyd y terfyn eithaf. Mae'n chwithig meddwl na chawn ei gweld mwy—a hi ond 40 oed. Nid yn aml y cyfarfyddwn a'i bath—yr oedd yn iechyd i gorff, meddwl ac ysbryd i fod yn ei chwmni. Yr oedd ganddi wyneb a'i lond o siriol deb a dau lygad hawddgar rhyfeddol : dau lygad a fynnent siarad. Hawdd gwybod dydd ei hangladd—y Sadwrn dilynol—fod un annwyl a gweithgar wedi mynd. Claddwyd yn ymyl ei mham yn Llwynrhydowen. Gosodwyd 32 o blethdorchau ar fan ei bedd—un wedi dod oddiwrth y " District Nursing Association " Fforestfach ac un o gynulleidfa High Street, Abertawe. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. Gwilym Evans, Llandysul a phregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. T. Evans (A), Saron, Fforestfach a'r Parch. D. C. Griffiths (B), Aberduar. Gwelwyd yn bresennol hefyd y Parchn. S. E. Bowen, Alltyplaca ; R. Morris (B), Penybont ; D. Rhydderch (A), Seion ; D. A. Thomas (E) ; A. P. Williams (E), Llandysul a H. Ponsford (E), Talgarreg. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Mallie Davies, L.L.C.M., Dewi Villa. Hyderwn y ca'r priod, y plant a'r perthynasau i gyd deimlo cysgod y Duw y credai ein hannwyl chwaer mor gryf ynddo.

Gorffennaf 25, yn 50 mlwydd oed, ELEANOR JONES, priod Thomas Jones, Blaenpant, Llanfihangel Ystrad. Ni fu ei chystudd ond pythefnos, ac y mae ei hymadawiad tra disymwth yn achos tristwch mawr. Yr oedd yn un a wnaeth wasanaeth diwyd a da ar hyd ei hoes. Bu ar wasanaeth am un flynedd ar ddeg mewn fferm yn ardal Cwrtnewydd, ac am yr un nifer o flynyddoedd mewn fferm yn ardal Cwmsychbant, a thra yn y lleoedd hyn yr oedd yn aelod selog yng Nghapel-y-Cwm. Dengys y blynyddau uchod a fu ar wasanaeth yn yr un lleoedd ei bod yn un a gyflawnai ei gorchwylion yn ffyddlon. Drwy y ffyddlondeb hwn a nodweddai ei bywyd yr oedd wedi ennill parch ac ymddiried pobl. Claddwyd ym mynwent eglwys Aberduar, gerllaw Llanybyther. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a gweddiwyd wrth y bedd gan y Parch. D. C. Griffiths, Aberduar. Gadawodd briod, pump chwaer, dau frawd, ac amryw o berthynasau agos eraill mewn galar dwys.

PANTYDEFAID.—Daearwyd gweddillion marwol ELIZABETH EVANS, Blaenffos, ym mynwent Pantydefaid, Llun, Gorffennaf 29 a hi wedi marw Gorff. 26ain yn 78 oed. Treuliodd y misoedd diwethaf o'i bywyd gyda'i pherthynasau yn Ffosesgob lle y gofalwyd yn dyner am dani. Trwy ei hir oes bu yn ddynes weithgar, yn llawn gonestrwydd a diniweidrwydd. Cafodd gladdedigaeth luosog a pharchus. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w brawd a'r perthynasau ereill. Gwasanaethwyd yn y tŷ, yn y Capel, ac ar lan y bedd gan ei gweinidog, y Parch. Gwilym Evans, B.A.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST.

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.